# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer Ymdrin â Gohebiaeth sy’n ymwneud â gwaith Archwilio

## Nodyn gan yr Ysgrifenyddiaeth

1. O dro i dro, bydd Aelodau’r Pwyllgor Archwilio yn derbyn gwybodaeth am fater sy’n ymwneud â gwaith archwilio (rheoleiddio, priodoldeb a gwerth am arian) y gallent deimlo y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ei archwilio gyda golwg posibl ar i’r Pwyllgor wrando ar dystiolaeth ar y mater maes o law. Gall y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru dderbyn gwybodaeth debyg – o bosibl, gan "chwythwr chwiban" sy’n cymryd mantais o Ddeddf Datgelu Buddiannau Cyhoeddus 1998.

2. Mae adran 92 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhagweld y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau gyda’r Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol i ddefnyddio adnoddau’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol a fyddai’n cynnwys archwilio’r materion y bydd aelodau’r Cynulliad (gan gynnwys aelodau’r Pwyllgor Archwilio) wedi’u codi.

3. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol bob tro yn ateb llythyron oddi wrth Aelodau’r Cynulliad (gan gynnwys Aelodau’r Pwyllgor Archwilio) neu’r cyhoedd. Efallai y byddai’n well gan Aelodau’r Pwyllgor ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol drwy’r Cadeirydd neu anfon copi o’r ohebiaeth at y Cadeirydd. Caiff unrhyw ohebiaeth sy’n ymwneud â gwaith archwilio a dderbynnir gan y Cadeirydd neu’r Ysgrifenyddiaeth eu hanfon at yr Archwilydd Cyffredinol am ei gyngor. Lle bo’n briodol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â Swyddfa Cydymffurfio y Cynulliad ac yn anfon copi o’r ohebiaeth berthnasol ato gan mai ef sy’n gyfrifol am gyd-gysylltu materion archwilio.

4. Gan amlaf, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gofyn fel arfer bod pob cais archwilio yn cael ei gyflwyno’n ysgrifenedig er mwyn osgoi camddealltwriaethau posibl yngln â’r materion a godir a diogelu’r defnydd o adnoddau archwilio. Yn ystod archwiliad, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud pob ymdrech i gadw ffynhonnell y cais am archwiliad yn gyfrinachol.

5. Disgrifir yr hawl sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol i weld dogfennau, gwybodaeth a materion eraill at ddibenion eu harchwilio yn Adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adrannau 100(2) a 145(2) o’r Ddeddf yn ei gwneud yn glir nad yw cwmpas yr archwiliad sydd i’w gynnal gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cwmpasu cwestiynau yngln â rhinweddau amcanion polisi’r Cynulliad. At ei gilydd, gall y darpariaethau hyn ddylanwadu ar gwmpas

gwaith archwilio’r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â materion a gyfeiriwyd ato gan Aelodau’r Cynulliad a’r dogfennau y gall ddisgwyl eu harchwilio i’r perwyl hwnnw. Er enghraifft, ni fyddai’r Archwilydd Cyffredinol yn disgwyl cael gweld fel arfer bapurau’r Cabinet na’r rhai sy’n ymwneud â llunio polisi.

6. Lle bo gohebiaeth wedi’i hanfon at y Cadeirydd, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyngor ar yr ateb drafft y gall y Cadeirydd a’r Clerc eu hanfon.

7. Mewn rhai achosion efallai, yn sgil y wybodaeth a dderbynnir a chasgliadau’r archwiliad, fe all yr Archwilydd Cyffredinol ddod i’r casgliad y gallai archwiliad manylach fod yn fwy priodol ac y gallai o bosibl arwain at adroddiad ganddo i’r Cynulliad a’r Pwyllgor Archwilio. Caiff costau ei swyddfa eu cymeradwyo’n flynyddol gan y Pwyllgor a chan y bydd yn anodd dod o hyd i arian ychwanegol yng nghanol blwyddyn, efallai y bydd angen aildrefnu gwaith prif ffrwd arall y mae’n fwriad gan yr Archwilydd Cyffredinol i’w wneud. Os felly, bydd yn trafod y mater gyda’r Cadeirydd i ddechrau, yna gall godi’r mater gydag Aelodau fel bo’n briodol.

8. Mae gan y gweithdrefnau a nodir yn y nodyn hwn nifer o fanteision. Maent yn rhoi sicrwydd y bydd yr archwilwyr proffesiynol annibynnol sy’n gweithio i’r Archwilydd Cyffredinol ac yn defnyddio’u hawliau cyfreithiol i gael gweld cofnodion y Cynulliad a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo, yn dod o hyd i ffeithiau perthnasol unrhyw achos. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ateb yr aelod naill ai’n uniongyrchol neu drwy’r Cadeirydd fel bo’n briodol a gall gynghori’r Cadeirydd yngln ag a fyddai unrhyw archwilio manwl pellach yn angenrheidiol ac amseru unrhyw waith o’r fath. Yn y cyfamser, gall y Pwyllgor barhau i ddilyn trywydd ei raglen waith cytûn heb broblemau. Mae’r gweithdrefnau hefyd yn help i fod yn wleidyddol-sensitif a diogelu pawb sy’n cymryd rhan.

9. Gwahoddir y pwyllgor i nodi’r trefniadau arfaethedig a amlinellir uchod.